# Dirymu dyfarniad trwydded amlblecs radio ar raddfa fach Abertawe

## Cefndir

O dan adran 51(6) o Ddeddf Darlledu 1996 (fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Amlblecs Radio ar Raddfa Fach a Radio Digidol Cymunedol 2019), gall Ofcom ddirymu'r dyfarniad o drwydded amlblecs radio ar raddfa fach pan nad yw'r drwydded ei hun wedi'i rhoi eto ac mae gan Ofcom sail resymol dros gredu na fydd y person y dyfarnwyd y drwydded iddo'n darparu'r gwasanaeth o fewn 18 mis i ddyddiad y dyfarniad.

## Penderfyniad

Mae Ofcom wedi penderfynu dirymu'r dyfarniad trwydded a wnaethom ar 19 Awst 2022 i Swansea DAB Limited ("Swansea DAB") mewn perthynas â gwasanaeth amlblecs radio ar raddfa fach Abertawe.

Mae hyn ar y sail bod yr amodau statudol ar gyfer dirymu fel y nodir uchod wedi'u bodloni. Yn gyntaf, nid yw'r drwydded a ddyfarnwyd wedi'i rhoi eto. Yn ail, mae gennym sail resymol dros gredu na fydd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu o fewn 18 mis i'r dyfarniad (h.y. erbyn 19 Chwefror 2024) gan fod Swansea DAB wedi gofyn i'r dyfarniad gael ei dynnu'n ôl. Mae Swansea DAB wedi esbonio bod hyn oherwydd iddynt ddod i'r casgliad nad oedd y cynllun technegol a oedd yn berthnasol yn wreiddiol yn ddichonadwy mwyach. Dywedodd Swansea DAB, er ei fod wedi nodi safleoedd amgen dros dro, na fyddai mewn sefyllfa i gynnig cynllun technegol diwygiedig ar hyn o bryd, ac felly na fyddai lansio o fewn y cyfnod statudol o 18 mis yn ymarferol.

## Cynlluniau i ail-hysbysebu

Mae Swansea DAB wedi mynegi diddordeb mewn ailymgeisio am drwydded amlblecs radio ar raddfa fach yn Abertawe pe bai'n cael ei hail-hysbysebu.

Mae Ofcom yn nodi yr hysbysebwyd Abertawe'n wreiddiol fel rhan o drydedd rownd Ofcom o ddyfarniadau trwyddedau radio ar raddfa fach, a oedd yn arwydd ei fod yn ardal â blaenoriaeth uchel ar gyfer darparu gwasanaeth o'r fath. Roedd wedi denu dau gais bryd hynny, ac rhyngddynt roedd y ceisiadau hyn wedi dangos lefel dda o gefnogaeth gan wasanaethau radio cymunedol a masnachol i sefydlu amlblecs ar raddfa fach. Am y rhesymau hyn, mae'n ymddangos bod lefel y diddordeb mewn sefydlu gwasanaeth yn cyfiawnhau ail-hysbysebu'n brydlon.

Felly rydym yn bwriadu cynnwys Abertawe yn Rownd Chwech y rhaglen drwyddedu amlblecsau radio ar raddfa fach.